

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ddydd Iau 28 Ebrill 2022am 10.00am yn ystafell 2.25 a 2.26 Canolfan Bywyd y Myfyrwyr a thros Zoom

Yn bresennol: Patrick Younge (Cadeirydd), Yr Athro Colin Riordan, Yr Athro Rudolf Allemann [Cofnodion 2023-2038], Yr Athro Rachel Ashworth, yr Athro Marc Buehner, Ricardo Calil, Hannah Doe, Gina Dunn, Judith Fabian, Yr Athro Fonesig Janet Finch [Cofnodion 2023-2034], Yr Athro Ken Hamilton [Cofnodion 2023-2038], Michael Hampson, Christopher Jones, Jan Juillerat [Cofnodion 2023-2031 a 2035-2042], John Shakeshaft, David Simmons, y Barnwr Ray Singh, Dr Janet Wademan, Yr Athro Damian Walford Davies, Agnes Xavier-Phillips.

Mynychwyr: Katy Dale [Cofnodion], Bruna Gil [Cofnodion 2033-2042], Rashi Jain, Ben Lewis [Cofnod 2039], Claire Morgan, Claire Sanders, Darren Xiberras, Simon Wright [Cofnod 2039].

2023 Croeso

2023.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2024 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

2024.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Baston, Dr Joanna Newman a Dr Pretty Sagoo.

2025 Datgan Budd

Nodwyd

2025.1 bod gwrthdaro buddiannau rhwng yr Athro Fonesig Janet Finch a John Shakeshaft mewn perthynas ag eitem agenda 19 [Penodiadau ac Ailbenodi Aelodau Lleyg]; ni fyddai'r aelodau a enwyd yn cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo'r eitem honno;

2025.2 bod yr Athro Fonesig Janet Finch wedi nodi diddordeb mewn perthynas ag eitem 7 [adroddiad yr Is-Ganghellor]; roedd cyfeiriad yn yr adroddiad at gais cydweithredol gyda Phrifysgol Birmingham am gyllid UKRPIF a nododd yr Athro Fonesig Janet Finch ei bod yn aelod o'r panel dethol ar gyfer UKTPIF;

2025.3 bod Llywydd Undeb y Myfyrwyr wedi nodi diddordeb mewn perthynas ag eitem 20 [Rhagolwg Cyllideb a Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr].

2026 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 [21/635C] yn gofnod gwir a chywir ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor.

2027 Materion yn codi o'r Cofnodion

Derbyniwyd Papur 21/84 Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2027.1 bod y camau gweithredu mewn perthynas â'r Arolwg Staff [Cofnod 1944.1] wedi cael eu cau oherwydd faint o amser ers yr arolwg; roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar gynigion ar gyfer yr Arolwg Staff nesaf a bod nifer o arolygon pwls wedi'u cynnal yn ystod y pandemig.

2028 Camau Gweithredu gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd papur 21/685, 'Camau Gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2028.1 bod y Cadeirydd, ers y cyfarfod diwethaf, wedi cymeradwyo'r canlynol drwy gamau gweithredu'r Cadeirydd:
- Bywyd Canada - Gweithred Cyfranogi ar gyfer Buddion Risg
 - Penodi'r Athro Roger Whitaker i rôl Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter o 1 Mehefin 2022.

2029 Eitemau gan y Cadeirydd

Nodwyd

- 2029.1 bod y Cadeirydd wedi ymweld ag adeiladau newydd Abacws a sbarc I spark ac wedi annog aelodau llewg i ymweld â'r adeiladau hyn hefyd;
- 2029.2 i Varsity gael ei gynnal ddoe ac i Gaerdydd ennill, ac estynnwyd diolch i Undeb y Myfyrwyr a phawb a gymerodd ran;
- 2029.3 bod yr incwm i'r Brifysgol yn aros yr un peth ac y byddai'n debygol o aros yr un peth wrth symud ymlaen, tra bod pwysau cost ar fyfyrwyr, staff a'r brifysgol yn parhau i gynyddu; anogwyd aelodau'r Cyngor i gadw hyn mewn cof wrth ystyried unrhyw fusnes yn y cyfarfod ac wrth wneud penderfyniadau.

2030 Monitro Ffactorau Llwyddiant Critigol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/689C, 'Monitro'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hwn.

Nodwyd

- 2030.1 nad oedd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol (UEB) wedi adolygu'r papur hwn eto a'i fod felly yn gynnig drafft i'w drafod;
- 2030.2 bod Diwrnod i Ffwrdd y Cyngor ym mis Chwefror wedi cytuno mai'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (CSFs) oedd y pileri strategol priodol a bod y papur yn darparu pwyntiau trafod i bennu'r metrigau gorau ar gyfer sicrwydd a

- gweledd y CSFs; roedd hyn yn cynnwys nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a oedd wedi cael eu mesur cyn y pandemig;
- 2030.3 bod aelodau'r Cyngor yn gefnogol i'r cynnig i fetrigau gael eu mesur a'u hadrodd yn rheolaidd i'r Cyngor;
- 2030.4 ei bod yn bwysig cymryd golwg gyfannol ar gyfeiriad strategol y Brifysgol i nodi'r dangosyddion, er mwyn sicrhau mai'r rhain oedd y rhai mwyaf priodol yn hytrach na'r rhai hawsaf i'w mesur;
- 2030.5 bod yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr (ACF) yn ddangosydd anodd gan ei fod yn arolwg a oedd yn edrych yn ôl, fodd bynnag, roedd yn dangos tuedd tuag i lawr yr oedd angen mynd i'r afael â hi; roedd nifer o ddangosyddion eraill mewn perthynas â phrofiad myfirwyr yn cael eu harchwilio (e.e. adborth panel staff-myfirwyr) a fyddai'n darparu mwy o ddata yn ystod y flwyddyn wrth symud ymlaen;
- 2030.6 y gallai basged o fetrigau fod yn opsiwn mwy addas;
- 2030.7 bod y Brifysgol wedi cynnal nifer o arolygon pwls yn ystod y pandemig, ar bynciau fel iechyd, lles a gweithio gartref; roedd y cyfraddau ymateb i'r arolygon pwls hyn wedi bod yn is na'r arolwg staff ehangach ac felly roedd y pwyllgor gwaith yn ofalus ynghylch casgliadau a gafwyd o'r arolygon hyn; awgrymwyd bod lles ariannol yn bwnc y gellid ei gynnwys, o bosibl, mewn arolwg pwls yn y dyfodol;
- 2030.8 bod safonau academaidd yn dod o dan amrywiaeth o systemau a metrigau sydd eisoes ar waith ac yn cael eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfirwyr.
- Penderfynwyd
- 2030.9 i unrhyw feysydd ychwanegol a awgrymir y dylid eu mesur gael eu rhoi i Ysgrifennydd y Brifysgol;
- 2030.10 i bapur arall gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, yn dilyn adolygiad a datblygiad gan UEB.
- 2031 Adroddiad Yr Is-ganghellor i'r Cyngor**
- Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/641C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hwn.
- Nodwyd
- 2031.1 y byddai'r Brifysgol yn darparu 10 ysgoloriaeth israddedig a 10 ysgoloriaeth ôl-raddedig wedi'u hariannu'n llawn i ymgeiswyr o Wcráin; roedd y Brifysgol hefyd yn parhau i gefnogi cyd-academyddion trwy CARA ac wedi rhoi rhoddion i'r grŵp i gefnogi ei waith da;

- 2031.2 roedd y Brifysgol yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r rhai y mae'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio arnynt ac roedd yn ystyried pa gymorth y gellid ei gynnig pan fyddai heddwch yno eto;
- 2031.3 bod y risg o ran gweithredu diwydiannol wedi cynyddu; roedd UCU wedi cyhoeddi camau gweithredu hyd at ond ddim yn cynnwys streic mewn perthynas â thrafodaethau cyflog y llynedd; efallai y bydd camau eraill mewn perthynas â'r anghydfod pensiwn a byddai mwy o wybodaeth yn hysbys ar 12 Mai;
- 2031.4 bod y paragraff cyntaf o dan bennawd y Genhadaeth Ddinesig o dan y pennawd anghywir yn yr adroddiad;
- 2031.5 na chredwyd bod y gostyngiad mewn ceisiadau myfyrwyr cartref wedi digwydd oherwydd y pandemig, gan fod y Brifysgol wedi dwysáu ei gwaith gydag ysgolion yn ystod y cyfnod hwn; dangosodd ffigurau diweddar fod y bwlch hwn wedi lleihau ond roeddent yn awgrymu ansicrwydd ynghylch marchnadoedd Tsieina, gyda chyfnodau clo yn peri i fyfyrwyr ymatal rhag teithio'n rhyngwladol ar gyfer astudio;
- 2031.6 na fyddai'r Brifysgol yn ystyried lleihau ei hymdrechion ymchwil, gan fod hyn yn rhan allweddol o'i gweithrediad ac yn ased o bwys mawr i enw da'r Brifysgol;
- 2031.7 credwyd bod y gostyngiad mewn ceisiadau am grantiau ymchwil wedi digwydd oherwydd bod staff yn parhau i jyglo darpariaeth addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein ac wedi blino'n lân oherwydd y pandemig;
- 2031.8 y byddai canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn cael eu cyfleu i'r Cyngor.

Gadawodd Jan Juillerat y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

2032 Cofrestr Risgiau

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/523C, 'Cofrestr Risgiau'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hwn.

Nodwyd

- 2032.1 bod tair risg newydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr risgiau, gan ganolbwyntio ar ryngwladoli, newidiadau i batrymau gwaith a'r gwasanaeth biolegol;
- 2032.2 bod y camau lliniaru ysgrifenedig mewn perthynas â lles a lles myfyrwyr yn canolbwyntio ar iechyd corfforol yn hytrach nag ar iechyd meddwl ac y dylai'r rhain gael eu cynnwys yn fersiynau'r dyfodol;
- 2032.3 bod map rheoli risg rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu, i nodi'r risgiau allweddol a'r meysydd y dylid canolbwyntio arnynt mewn perthynas â chydymffurfiaeth reoleiddiol;

- 2032.4 bod cynnydd yn nifer partneriaethau'r Brifysgol yn golygu bod mwy o risgiau hefyd ynghylch gofynion cyfreithiol a rheoleiddio'r partneriaethau hyn; roedd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn cynnal adolygiad o'r risgiau addysgol sy'n gysylltiedig â phartneriaethau cydweithredol;
- 2032.5 yr holwyd a oedd Profiad y Myfyriwr: Dylid graddio risg Addysgu ac Asesu yn goch, o ystyried bod risg ymyrraeth CCAUC (yr ACF) (y bu'n bwydo iddi) wedi'i dosbarthu'n goch; nodwyd y cyfrifwyd bod y camau gweithredu a roddwyd ar waith mewn perthynas â'r eitem profiad myfyrwr wedi lleihau ei risg;
- 2032.6 nad oedd adolygiad diweddar o ddata cyrhaeddiad cynnydd wedi dangos bod myfyrwyr yn perfformio'n waeth yn academaidd nag yn y blynyddoedd blaenorol neu cyn y pandemig; fodd bynnag nodwyd bod problemau mewn ysgolion a phynciau penodol ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu.
- Penderfynwyd
- 2032.7 ychwanegu camau lliniaru mewn perthynas ag iechyd meddwl myfyrwyr at y risg lles a lles myfyrwyr;
- 2032.8 y dylid adlewyrchu cynnydd mewn costau byw yn y risg i les staff, gan fod y rhain yn debygol o effeithio ar y maes hwn;
- 2032.9 cymeradwyo'r risgiau presennol, eu sgôr a'r camau lliniaru fel adlewyrchiad cywir o broffil risg y Brifysgol.

2033 Seremonïau Graddio 2022

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/692, 'Briffiad Graddio 2022'. Gwahoddwyd y Rhag Is-Ganghellor Dros Addysg a Phrofiad Myfyrwr i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2033.1 bod Stadiwm Principality wedi cael ei nodi fel lleoliad digon mawr i ddal y tair carfan o fyfyrwyr sy'n graddio ac yn caniatáu ymbellhau cymdeithasol, pe bai mesurau'n dal yn eu lle bryd hynny; doedd y cynlluniau cychwynnol ddim wedi caniatáu i fyfyrwyr gerdded ar draws y llwyfan yn y stadiwm ac roedd hyn wedi arwain at rywfaint o gyhoeddusrwydd negyddol ynghylch y digwyddiad ac at ddeiseb gan fyfyrwyr;
- 2033.2 yn sgil hyn, roedd y Brifysgol wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer y digwyddiad ac wedi cynnwys y gallu i fyfyrwyr gerdded ar draws y llwyfan o fewn eu digwyddiadau Ysgol Academaidd ar y campws; roedd y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwr wedi ysgrifennu at fyfyrwyr i ymddiheuro ac egluro'r newidiadau i'r trefniadau;
- 2033.3 bod myfyrwyr yn fodlon ar y trefniadau newydd a bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol;

- 2033.4 y byddai'r effaith ar staff academiaidd a oedd yn rhan o'r digwyddiadau graddio yn cael ei hystyried gan ysgolion, yn dibynnu ar eu digwyddiadau;
- 2033.5 bod diolch wedi cael ei estyn i Undeb y Myfyrwyr am eu cefnogaeth yn y mater hwn;
- 2033.6 bod aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i ddod i ddigwyddiadau graddio a byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu maes o law;
- 2033.7 bod diolch wedi cael ei estyn gan y Cyngor i'r Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a'r tîm am eu hymdrechion i drefnu'r digwyddiadau hyn.

Ymunodd Bruna Gil â'r cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

2034 Profiad y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 21/688 'Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr' a 21/698, 'Diweddariad ACF'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2034.1 bod Llywydd Undeb y Myfyrwyr wedi nodi'r canlynol sy'n deillio o'u hadroddiad:
- .1 bod yr arian a dderbyniwyd gan CCAUC wedi cael ei ddefnyddio ar nifer o weithgareddau i gefnogi myfyrwyr; erbyn hyn roedd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu'r digwyddiadau hyn i benderfynu beth y gellid ei ddatblygu ymhellach;
 - .2 bod yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli wedi ymddiswyddo o'r rôl am resymau personol; byddai'r rôl yn parhau'n wag nes i'r swyddog etholedig newydd ddechrau ym mis Gorffennaf 2022;
 - .3 bod Orla Tarn yn ymgeisydd yn yr etholiadau i Lywydd UCM Cymru;
 - .4 bod Gina Dunn wedi cael ei hethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2022-23;
 - .5 bod yr Undeb wedi gweld bod myfyrwyr wedi ymwneud yn dda â'r etholiadau a bod hynny wedyn yn bwydo drwodd i ymgysylltiad da drwy gydol y flwyddyn; roedd prifysgolion eraill Cymru wedi nodi nad oedd eu myfyrwyr wedi ymwneud yn dda ag etholiadau;
- 2034.2 bod y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr (ACF):
- .1 bod y papur yn cyflwyno cynnydd yn erbyn themâu allweddol yr ACF a newidiadau i'r gwaith o fonitro a gweinyddu'r ACF;

- .2 y bu, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, symudiad sylweddol yn erbyn themâu allweddol yr arolwg; roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda staff addysgu i ddatblygu achrediad, CPD, ac ati, a bu cysylltiad da iawn â rhaglenni'r Gymrodoriaeth Addysg achrededig; roedd y gwaith bellach yn cael ei wneud gydag ysgolion i adolygu'r hyn oedd ei angen o ran darpariaeth CPD;
- .3 bod yr achos busnes a gyflwynwyd i'r Cyngor yn gorgyffwrdd â themâu allweddol yr ACF a rhoddir ystyriaeth ar sut y byddai'n cael ei gyflwyno ar y meysydd hyn heb ailadrodd;
- .4 bod y papur hefyd yn cynnwys manylion am y strwythurau sicrwydd y mae'n ofynnol eu rhoi ar waith i sicrhau y monitrir ac y goruchwylir cylch yr ACF a nodwyd y broses i hysbysu staff academiaidd am y lefelau presennol o fonitro gan CCAUC ynghylch ACF;
- .5 Gwnaed gwaith ynglŷn â chynlluniau gweithredu, gan gynnwys adolygu'r rhain yn unol â'r broses gynllunio integredig ac yn edrych ar strwythurau llywodraethu; mae hyn wedi canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu ysgolion ac wedi caniatáu targedu cefnogaeth;
- .6 cynhaliwyd archwiliad gan y Tîm Archwilio Mewnol ar gynlluniau gweithredu'r ACF; roedd hyn wedi rhoi sicrwydd cyfyngedig ac roedd hynny'n achos siom ond roedd wedi nodi bod angen ffurfioli'r haenau o fonitro a goruchwyllo a oedd wedi'u cyflwyno; roedd yr argymhelliad wedi ei dderbyn ac roedd fframwaith ar gyfer yr ACF yn cael ei ddatblygu;
- .7 bod adrodd ar sail risg trothwy yn cael ei ystyried, er mwyn galluogi dathliadau o raglenni uwchben trothwy a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n is na'r trothwy; byddai data yn ystod blwyddyn hefyd yn darparu dangosyddion rhybudd cynnar ar gyfer ardaloedd risg;
- .8 bod yr ardal allweddol nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau y byddai'r adnodd newydd yn effeithio ar newid yn yr ardaloedd cywir ac i'r cyfeiriad cywir;
- .9 bod y Cyngor yn croesawu'r adrodd rheolaidd gan nodi mai canlyniadau'r ACF fyddai'r dangosydd allweddol o gynnydd, yn enwedig gan y byddent yn y parth cyhoeddus; nodwyd y byddai canlyniadau'r ACF yn cael eu datgyfuno fesul rhaglenni i alluogi'r Cyngor i weld data manylach;
- .10 bod rhai ysgolion yn gweld lefelau isel o bresenoldeb myfyrwyr a allai fod yn cyfateb i ymgysylltu gwael â mecanweithiau llais myfyrwyr; roedd y Brifysgol yn dymuno cynnal manteision dysgu cyfunol ond roedd am i addysgu ddychwelyd i'r campws ac roedd angen gwneud diagnosis o'r rhesymau nad oedd rhai myfyrwyr yn ymgysylltu.

Penderfynwyd

2034.3 cymeradwyo'r argymhelliad i roi diweddariad i aelodau'r Cyngor ar yr ASC ym mhob cyfarfod o'r Cyngor yn 2022/23.

Gadawodd yr Athro y Fonesig Janet Finch y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem hon.

2035 Diweddariad ar Gynlluniau Pensiwn y Brifysgol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 21/687C, 'Diweddariad ar Gynlluniau Pensiwn Prifysgol' a 21/701, 'Ymateb Prifysgol i ymgynghoriad USS ar y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

USS

2035.1 bod y Brifysgol, ers cyfarfod blaenorol y Cyngor, wedi ymateb i ddau ymgynghoriad byr; y cyntaf ar addasu buddion y dyfodol a chymhwyso'r cap chwyddiant o 2.5% oedd wedi'i gefnogi gan y Brifysgol; roedd hyn wedi cynnig y dylai cyfraniadau gan gyflogwyr gynyddu 0.2% ac estyniad cymedrol i'r cynllun adfer yn hytrach na chynnydd mewn cyfraniadau gweithwyr; roedd y newidiadau hyn wedi cael eu mabwysiadu gan USS o 1 Ebrill;

2035.2 cyfeiriodd yr ail ymgynghoriad at gynnig UCU ar brisio USS 2020 a chynnig cynyddu cyfraddau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr i gynnal y manteision cyfredol; doedd y Brifysgol ddim wedi cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn cael ei ystyried yn anfforddiadwy ac anghynladwy, gyda chostau i'r Brifysgol yn codi i tua £15m y flwyddyn erbyn 2024 a chostau i aelodau yn cynyddu o 1.2% ym mis Ebrill 2022 i 4.1% ym mis Ebrill 2024; nid oedd USS wedi mabwysiadu'r cynnig hwn;

2035.3 roedd prisiad Mawrth 2020 bellach wedi dod i ben a rhoddwyd newidiadau i fudd-daliadau ar waith o 1 Ebrill 2022;

2035.4 bod ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad ar Egwyddorion Buddsoddi yn canolbwyntio ar dair prif thema:

- .1 bod amseriad carbon sero-net 2050 yn hirach na'r hyn y mae'r Brifysgol yn ei ystyried yn rhesymol;
- .2 ai hunangynhaliath oedd y metrig cywir y dylai'r cynllun ei dargedu o safbwynt risg;
- .3 ai nawr oedd yr amser priodol i ychwanegu mwy o gaffaeliadau trosoledd a bondiau i'r cynllun;

CUPS

2035.5 bod newidiadau i fuddion cynllun CUPF wedi eu rhoi ar waith o 1 Ionawr 2022 a daeth y cynllun i ben i aelodau newydd o 1 Mawrth 2022; roedd cynllun newydd CUPS bellach ar waith;

- 2035.6 bod y llythyr a oedd yn y papurau cyfarfod yn nodi nad oedd y Cyngor wedi bod yn gefnogol i gynnig UCU, ond doedd hynny ddim yn gywir adeg ysgrifennu'r llythyr;
- 2035.7 bod papur wedi cael ei gyflwyno yn y cyfarfod a oedd yn gofyn am y ffigyrau a ddarparwyd yn ymateb y Brifysgol i gynnig UCU; roedd y Brifysgol wedi nodi mewn ymateb cynharach i ymgynghoriad blaenorol ar ganlyniadau dangosol prisiad USS 2020 byddent yn barod i dderbyn cynnydd mewn cyfraddau i gyfanswm o 34.7%; roedd cynnig UCU wedi awgrymu cyfraddau o 25.2% ar gyfer cyflogwyr a 9.8% ar gyfer gweithwyr, gan ddarparu cyfanswm o 35%; roedd yr ymateb i gynnig UCU mewn papur 21/867C hefyd wedi dyfynnu ffigurau o 43% a honnwyd eu bod yn anghywir:
- 2035.8 Cadarnhawyd bod yr ohebiaeth y cyfeiriwyd ati wedi'i hysgrifennu gan UUK ac y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y wybodaeth sydd ynddi at UUK; fodd bynnag, fel rhan o'i thrafodaethau, roedd y Brifysgol yn ymwybodol y gallai cynnig UCU yn y papur arwain at gostau blynyddol o tua £15m i'r Brifysgol a chynnydd sylweddol mewn costau i aelodau USS yn ystod cyfnod o bwysau costau byw;
- 2035.9 cytunwyd y gall cronoleg o'r ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd gan y Brifysgol gyda'i staff, ac UUK gyda sefydliadau gynorthwyo i egluro statws cynnwys y trafodaethau rhwng UCU ac UUK;
- 2035.10 bod gan y Brifysgol Grŵp Technegol Prisio Actiwaraidd mewnol USS a fyddai'n ymateb ar agweddau technegol ar y cynllun; fodd bynnag, y Bwrdd Gweithredol oedd yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch a fyddai cynigion yn cael eu cefnogi.
- Penderfynwyd
- 2035.11 y byddai'r Brifysgol yn adolygu'r papur a gyflwynwyd ac yn darparu ymateb ysgrifenedig.
- Ail-ymunodd Jan Juillerat â'r cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

2036 Cynllunio Cyllideb

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/560C, 'Cynllunio Cyllideb'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2036.1 [Hepgorwyd]
- 2036.2 [Hepgorwyd]
- 2036.3 [Hepgorwyd]
- 2036.4 [Hepgorwyd]

2036.5 [Hepgorwyd]

2036.6 [Hepgorwyd]

2036.7 [Hepgorwyd]

2036.8 [Hepgorwyd]

2036.9 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

2036.10 [Hepgorwyd].

2037 Diweddariad ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf a'r Cynllun Buddsoddi Tymor Byr

Derbyniwyd Papur 21/690C Diweddariad ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf. Siaradodd Darren Xiberras, y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

2037.1 [Hepgorwyd]

2037.2 [Hepgorwyd]

2037.3 i sbark I sbarc gael ei drosglwyddo ym mis Mawrth 2022 ac i TRH gael ei drosglwyddo ym mis Ebrill 2022;

2037.4 [Hepgorwyd]

2037.5 [Hepgorwyd]

2037.6 ei bod yn bwysig i'r ffocws symud i wireddu buddion.

2038 Adleoli Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd a gadael Tŷ Eastgate

Derbyniwyd ac ystyriwyd Papur 21/559C Adleoli Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd a gadael Tŷ Eastgate. Siaradodd yr Athro Damian Walford Davies, Dirprwy Is-Ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

2038.1 bod cynigion gwreiddiol wedi cael eu peiriannu'n ariannol ac yn strategol, er mwyn ystyried y defnydd o safle Parc y Mynydd Bychan yn y dyfodol a defnyddio ystâd sydd eisoes yn eiddo i'r Brifysgol;

2038.2 bod angen adnewyddu ac ehangu lle ar ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, gan nad oedd eu gofod presennol yn addas i'r diben; roedd yr Ysgol hefyd wedi ennill contract 10 mlynedd gydag AaGIC oedd yn gofyn am ofod penodol (e.e. ar gyfer ymarfer efelychu a manau trochi) ac felly roedd angen gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth a'r gallu i gyflawni'r contract;

- 2038.3 bod yr achos busnes hefyd yn darparu ar gyfer rhesymoli gofod ac i'r Brifysgol symud allan o fannau a ddelir ar brydles;
- 2038.4 bod £[Hepgorwyd]wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd i'w ddylunio; gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo cyllideb o £[Hepgorwyd], gan roi cyfanswm buddsoddiad o £[Hepgorwyd]; cynigiwyd y byddai £[Hepgorwyd] o'r prosiect yn cael ei ariannu o'r Cynllun Buddsoddi Tymor Byr a'r gweddill o'r cronfeydd wrth gefn;
- 2038.5 mai £[Hepgorwyd]oedd cyfraniad yr Ysgol yn 2019/20, gan gynyddu i £[Hepgorwyd] yn 2024/25.
- 2038.6 bod yr achos wedi dychwelyd NPV negyddol dros gyfnod buddsoddi o 10 mlynedd; roedd y cyfnod hwn wedi ei ddewis i adlewyrchu cyfnod contract AaGIC oedd wedi cwtogi cyfnod arferol yr NPV ac roedd disgwyl y byddai gwerth gweddilliol o fewn yr adeiladau ar ddiwedd y cyfnod; nodwyd hefyd bod diffyg buddsoddiad blaenorol wedi cynyddu cost y buddsoddiad presennol;
- 2038.7 bod y Bwrdd Gweithredol yn datblygu strategaeth ystadau ar ei newydd wedd;
- 2038.8 nad oedd disgwyl y byddai newidiadau sylweddol i ddarparu meddygaeth ar safle Parc y Mynydd Bychan o fewn y 10 mlynedd nesaf; nad oedd cynlluniau pellach o ran darparu addysg feddygol ym Mhrifysgol Bangor; roedd y Brifysgol wedi cael sicrwydd y byddai cefnogaeth i Brifysgol Caerdydd ac Abertawe yn aros pe câi ysgol feddygol ei chreu ym Mhrifysgol Bangor;
- 2038.9 y byddai diweddariad ynghylch safle Parc y Mynydd Bychan yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol; awgrymwyd hefyd y byddai cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol yn cael ei gynnal ar safle Parc y Mynydd Bychan.

Penderfynwyd

- 2038.10 cymeradwyo cyllideb o £[Hepgorwyd] i alluogi gadael Tŷ Eastgate yn llawn ac adleoli gweithgareddau addysgu'r Ysgol Gofal Iechyd (ynghyd â gweithgareddau ymarferol/efelychu hanfodol o Dŷ Dewi Sant (TDS)) i hen safle'r Adran Gwaith a Phensiynau erbyn Gwanwyn/Haf 2023.

Gadawodd yr Athro Rudolf Allemann a'r Athro Ken Hamilton y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

2039 Iechyd meddwl myfyrwyr

Ymunodd Cyfarwyddwr Bywyd y Myfyrwyr a'r Cofrestrydd Academiaidd â'r cyfarfod i gyflwyno ar yr eitem hon.

Nodwyd

- 2039.1 bod yr adran Bywyd Myfyrwyr (a ailenwyd yn ddiweddar) yn cynnwys Iechyd a Lles, Cyngor a Chyllid, Cyswllt Myfyrwyr, Cymorth Anabledd a Mynediad a

- Dyfodol Myfyrwyr a bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn wedi'u lleoli yn adeilad newydd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr (CSL);
- 2039.2 bod y Brifysgol yn cynnig model cymorth haenog a oedd yn bwrpasol; ni fwriadwyd y byddai'r gwasanaethau yn cymryd lle gwasanaethau'r GIG neu wasanaethau statudol eraill;
- 2039.3 y tybid yn aml mai cwnsela oedd sail y gefnogaeth a gynhigiwyd, ond dim ond un elfen ohono oedd hyn;
- 2039.4 bod CCAUC wedi darparu cyllid uniongyrchol i Ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu strategaethau iechyd meddwl; roedd hyn wedi dechrau yn 2020 ac roedd arwyddion y byddai'n parhau ym mlwyddyn academiaidd 2022-23; roedd yr arian hwn yn gymorth gwych i fodloni'r gofynion a'r pwysau a grëwyd gan y pandemig; nid oedd penderfyniad hyd yma a fyddai gan y comisiwn newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ddyletswydd mewn perthynas â iechyd meddwl myfyrwyr; roedd y Brifysgol hefyd wedi cynnal archwiliad hunan-asesiad o'i Strategaeth Iechyd Meddwl (a fu'n amod ar gyfer y cyllid gan CCAUC) ac yn gweithio drwy'r argymhellion;
- 2039.5 cafodd Partneriaeth Iechyd Meddwl yn Ne-Ddwyrain Cymru ei chreu a'i lansio fis diwethaf, a oedd yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; creodd hyn wasanaeth clinigol newydd i fyfyrwyr sy'n cyflwyno fel rhai sy'n sâl yn feddyliol ac fe'i darperir drwy'r CSL; roedd y gwasanaeth yn derbyn tuag un atgyfeiriad y dydd;
- 2039.6 bod newidiadau i'r arian ar gyfer Myfyrwyr Anabl a bod y Brifysgol yn gweithio drwy oblygiadau'r newidiadau hynny;
- 2039.7 bod ffigurau ar gyfer ymgysylltu ag iechyd a lles myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academiaidd bresennol tua 30% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac yn adlewyrchu twf o tua 70% yn ystod y 5 mlynedd diwethaf; gwelwyd twf tebyg ar draws y sector; nad oedd y Brifysgol wedi gweld gostyngiad mewn ymgysylltiad yn ystod y pandemig;
- 2039.8 bod gan y Brifysgol fodel ymyrraeth argyfwng unigryw a gyflwynwyd yn 2018-19 ar ôl cynllun peilot yn 2017-18; roedd dros 40% o ymyriadau myfyrwyr yn rhai argyfwng neu oherwydd pryder (h.y. roedd angen ambiwlans neu roedd risg ddybryd o anafu personol);
- 2039.9 bod cynllun peilot ymateb datgelu wedi'i lansio yn 2017-18 mewn partneriaeth â'r Swyddfa Myfyrwyr a Phrifysgol Birmingham; roedd hyn wedi gweld twf mewn ymatebion datgelu, fodd bynnag, y teimlad oedd bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol gan fod myfyrwyr gael eu hannog i ddatgelu ac roedd y gwasanaeth yn ymdrin â digwyddiadau hanesyddol a chyfredol, a allai fod wedi digwydd yn y brifysgol neu y tu allan iddi;

- 2039.10 bod y Brifysgol wedi rheoli'r twf yn y galw am gwnsela drwy ddefnyddio partneriaid allanol yn y sector preifat a bod lansio Campws Siarad ac yn offeryn a oedd yn caniatáu i fyfyrwyr siarad yn ddiennw ac yn ddiogel ar-lein gyda chymedroli ar waith; roedd hyn wedi golygu na chafwyd y rhestrau aros hir am gwnsela a gafwyd mewn sefydliadau eraill;
- 2039.11 mai blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol oedd:
- .1 cynnal Partneriaeth Iechyd Meddwl De-ddwyrain Cymru a ariannwyd tan Nadolig 2022;
 - .2 parhau i fodloni'r galw am ymyrraeth pan fo angen ar fyfyrwyr;
 - .3 sicrhau y cedwir staff ac y cynhelir dichonoldeb gwasanaethau; roedd y sector yn gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau am rai rolau ac o ystyried eu natur arbenigol yn aml, gallai gostyngiad yn nifer y staff olygu nad yw gwasanaethau bellach yn ddichonol i'w rhedeg;
- 2039.12 bod effeithiau allweddol y pandemig yn cynnwys cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n disgwyl datrysiad ar unwaith a bod tuedd gynyddol ynghylch materion iechyd meddwl heb eu rheoli yn dod yn fwy amlwg unwaith y byddant yn y Brifysgol; gwelwyd y mater diweddarach hwn ar draws y sector;
- 2039.13 y teimlwyd bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r cymorth y gallent ei gael drwy Fywyd y Myfyrwyr; parhaodd y tîm i weithio ar sicrhau bod myfyrwyr yn glir ynghylch pa gymorth oedd ar gael a ble y gellid ei gael, a hefyd sicrhau bod myfyrwyr ar safle Parc y Mynydd Bychan yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi;
- 2039.14 bod Bywyd Myfyrwyr yn gysylltiedig ag astudiaeth academiaidd drwy hyrwyddo gwasanaethau ar draws pob Ysgol, er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael ble bynnag yr oeddent yn astudio; roedd adolygiad o iechyd meddwl a lles ar y cwricwlwm hefyd yn cael ei ddatblygu ac roedd y Brifysgol wedi treialu Arwydd o Hapusrwydd cynllun a oedd yn anelu at dargedu myfyrwyr a oedd yn aml yn anoddach eu cyrraedd drwy'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr (e.e. dynion o'r Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell); nodwyd nad mater i diwtoriaid personol oedd darparu cymorth i fyfyrwyr ond eu bod yn ymwybodol o ble i gyfarwyddo myfyrwyr pe bai ei angen arnynt;
- 2039.15 bod gan y Brifysgol, ar gyfer myfyrwyr â chyflyrau nad oedd yn cael eu rheoli'n feddygol ar hyn o bryd, bartneriaeth i alluogi myfyrwyr i gael eu cyfeirio at dîm nyrsio; roedd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cipio yn system y GIG ac yn cael eu cefnogi'n feddygol pe bai angen iddyn nhw oedi eu hastudiaethau.

Gadawodd Ben Lewis a Simon Wright y cyfarfod.

2040 Unrhyw Fater Arall

- 2040.1 y dylid rhannu unrhyw awgrymiadau ar gyfer swyddi gwag aelodau lleyg sy'n digwydd ar ôl 1 Awst 2022 gyda Judith Fabian fel Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau;
- 2040.2 y byddai adolygiad llwyr o'r Ordinhadau o fudd;
- 2040.3 [Hepgorwyd]
- 2040.4 bod diolch yn cael ei estyn i Hannah Doe a oedd yn mynychu ei chyfarfod olaf o'r Cyngor.

2041 Eitemau a Dderbyniwyd i'w Cymeradwyo

- 2041.1 Cymeradwywyd y papurau canlynol gan y Cyngor:

Papur 21/575R Diwygiadau i Ordinhadau
Papur 21/642C Adroddiad y Senedd i'r Cyngor
Papur 21/691C Penodiadau ac ailbenodiadau aelodau lleyg
Papur 21/551C Rhagolygon cyllideb a grant bloc Undeb y Myfyrwyr

2042 Eitemau a dderbyniwyd er gwybodaeth

- 2042.1 Derbyniwyd y papurau canlynol er gwybodaeth:

Papur 21/647C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau
Papur 21/682C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
Papur 21/648C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu
Papur 21/634C Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi
Papur 21/594C Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau
Papur 21/686 Selio Trafodion
Papur 21/683C Crynodeb o Ddangosfwrdd Adnoddau Dynol